Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Natalie Williams**

Penysarn

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cyhoeddi

**11 Rhagfyr 2018**

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at:* *psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Natalie Williams wedi'i chofrestru i ofalu am uchafswm o 10 o blant o'i chyfeiriad cartref ym mhentref Penysarn, Ynys Môn. Mae hi'n cydweithio â'i gŵr ac maent yn cyflogi dau gynorthwyydd gwarchod plant. Mae'r gwasanaeth yn gofalu am blant hyd at 12 oed ac yn gweithredu o ddydd Llun i ddydd Gwener, rhwng 7:30am a 6:00pm. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, ond nid yw'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg am nad yw'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg.

## Crynodeb o'n canfyddiadau

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu. Maent yn hyderus ac wedi setlo'n dda, a chânt fudd o'r gofal magwrus. Mae'r gwarchodwr plant yn adnabod y plant yn dda ac mae wedi rhoi newidiadau cadarnhaol ar waith i sicrhau y caiff gweithgareddau eu cynllunio'n dda ac i hyrwyddo chwarae a phrofiadau dysgu'r plant. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac yn lân gyda digonedd o adnoddau ar gael i'r plant sy'n cynnig profiadau amrywiol iddynt.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r gwarchodwr plant wedi bodloni'r holl ddiffygion cydymffurfio a nodwyd a'r argymhellion a wnaed.

- Gwelsom nad oes unrhyw beryglon ar y safle. Mae'r gwarchodwr plant yn cwblhau asesiadau risg blynyddol ac yn cwblhau rhestr wirio ddyddiol bob bore er mwyn sicrhau bod y safle'n ddiogel cyn i'r plant gyrraedd.
- Roedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau adolygiad o ansawdd y gofal blynyddol. Gwnaeth gasglu a llunio adroddiadau ar safbwyntiau'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a gwnaed cynlluniau gwella ar gyfer y dyfodol.
- Mae'r datganiad o ddiben wedi'i ddiweddaru ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir ar hyn o bryd.
- Mae'r gwarchodwr plant wedi llunio a gweithredu bwydlen gylchol, yn cynnig amrywiaeth o wahanol brydau bwyd i'r plant eu mwynhau.
- Roedd y polisïau a'r gweithdrefnau wedi'u diweddaru, eu llofnodi a'u dyddio gan y gwarchodwr plant i ddangos eu bod yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.
- Cedwir ffurflenni damweiniau a digwyddiadau gyda chofnod o'r wybodaeth a rennir â'r rhieni.
- Mae'r gwarchodwr plant wedi ymestyn amrywiaeth yr adnoddau sydd ar gael i'r plant sy'n eu helpu i archwilio a dysgu.
- Yn dilyn yr arolygiad, cawsom gadarnhad bod gan un o'r cynorthwywyr gofal plant dystysgrif gyfredol y gwasanaeth datgelu a gwahardd.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â'r arfarniadau blynyddol ac adolygu'r defnydd o giatiau diogelwch.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Gall y plant fynegi eu barn; maent yn dylanwadu ar sut maent yn treulio'u hamser ac yn mwynhau cymryd rhan yn yr hyn sy'n digwydd o'u cwmpas.  Maent yn datblygu'n emosiynol ac yn gorfforol, ac maent yn hyderus ac yn annibynnol.

## Ein canfyddiadau

### 1.1 I ba raddau y mae gan blant lais?

Gwerthfawrogir ymdrechion y plant i gyfathrebu.  Maent yn gwybod y gwrandewir ar eu syniadau.

Roedd y plant yn symud o gwmpas lawr grisiau'n ddirwystr, dewison nhw ba lyfrau roeddent am eu darllen a rhoi gwybod os oeddent am i'r gwarchodwr plant ddarllen stori iddynt.  Gwnaethant ofyn yn hyderus am ragor o fwyd ac am weithgareddau penodol roeddent yn eu mwynhau.  Er enghraifft, gofynnodd y plant am adnoddau ychwanegol roeddent am chwarae â nhw a dewison nhw p'un a oeddent am aros yn yr ystafell chwarae lan llofft neu ymuno â gŵr y gwarchodwr plant am weithgaredd arall lawr grisiau.

Mae'r plant yn gwybod bod y gwarchodwr plant yn deall eu hanghenion.

### 1.2 I ba raddau mae’r plant yn teimlo’n ddiogel ac yn hapus, a’u bod yn cael eu gwerthfawrogi?

Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt gydberthynas agos â'u gwarchodwr plant sy'n darparu gofal cyson.

Gwnaeth y plant gyrraedd o'r grŵp chwarae ac roeddent yn awyddus iawn i sôn wrth y gwarchodwr plant am yr hyn roeddent wedi bod yn ei wneud.  Dangosodd y plant y sticeri a gawsant yn llawn balchder a gwnaethant wenu a magu hyder o'r ganmoliaeth a roddwyd iddynt.  Roedd y plant yn gyfarwydd â'r drefn.  Roeddent yn gwybod bod angen iddynt olchi eu dwylo cyn cinio ac roeddent yn chwarae gyda'r teganau yn y lolfa wrth iddynt aros i eraill gael newid eu cewynnau a dywedon nhw wrthym y byddent yn mynd lan llofft ar ôl hynny.

Mae'r plant yn magu sicrwydd a hyder yn y drefn a'r strwythur, sy'n meithrin eu hunan-barch.

### 1.3 Pa mor dda y mae plant yn rhyngweithio?

Mae'r plant yn dysgu sut i reoli eu hymddygiad ac yn datblygu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gywir ac yn anghywir.

Roedd y plant yn cyd-chwarae yn briodol.  Gwnaethant rannu beth oedd ar gael iddynt a derbyn bod angen iddynt aros eu tro, er enghraifft wrth chwarae yng nghornel y siop. Defnyddiodd y plant strategaethau effeithiol wrth ddelio â siom a chawsant gefnogaeth gadarnhaol gan y gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn dod yn sensitif i emosiynau pobl eraill.

### 1.4 I ba raddau y mae plant yn mwynhau chwarae a dysgu?

Mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n seiliedig ar chwarae ac maent yn dangos diddordeb ac yn gyffrous i gymryd rhan yn yr hyn sy'n mynd ymlaen.

Roedd y plant yn mwynhau'r gweithgareddau a gynlluniwyd mewn perthynas â'r thema bresennol.  Roeddent yn gyfarwydd â'r hyn oedd yn mynd ymlaen ac yn ymddiddori ynddo, roeddent yn mwynhau creu siapau Calan Gaeaf gyda chlai, a chasglu dail a brigau. Roeddent yn rhydd i archwilio'r amgylchedd, yn cael cyfnodau o chwarae wedi'u hysgogi gan y plant yn ogystal â chyfleoedd cyson i'r plant gyd-chwarae â'r gwarchodwr plant.

Mae'r plant yn llawn cymhelliant ac yn mwynhau eu chwarae, gan fagu ymdeimlad o gyflawniad yn yr hyn maent yn ei wneud.

### 1.5 Pa mor dda y mae plant yn datblygu, yn dysgu ac yn dod yn annibynnol?

Mae'r plant yn hyderus, yn annibynnol ac yn gwneud cynnydd da.

Mae cydberthynas gadarn rhwng y plant a'r gwarchodwr plant, gan eu galluogi i oresgyn heriau.  Er enghraifft, roedd plentyn yn chwarae'n hapus gyda bwrdd gweithgareddau, gan gwblhau'r rhan fwyaf o'r tasgau'n llwyddiannus. Fodd bynnag, wrth wynebu her, roeddent yn gofyn am help cyn parhau â'r dasg yn hyderus.  Cafodd y plant eu gwobrwyo am eu cyflawniadau, megis pan roeddent wedi defnyddio'r toiled yn llwyddiannus.  Dewiswyd seren y diwrnod a seren yr wythnos ac roedd y plant yn falch o'r gydnabyddiaeth a gawsant.

Mae'r plant yn cael eu hysgogi'n gadarnhaol ac yn dangos mentergarwch da i gwblhau tasgau a datrys problemau.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn sicrhau y caiff y plant eu cadw'n ddiogel ac yn iach.  Caiff ymddygiad ei reoli'n gadarnhaol a rhoddir sylw i anghenion unigol.  Mae gweithgareddau chwarae a dysgu wedi'u cynllunio'n dda ac yn rhoi profiadau cadarnhaol a diddorol i'r plant y maent yn eu mwynhau.

### Ein canfyddiadau

### 2.1 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn cadw plant yn ddiogel ac yn iach?

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo ffyrdd iach o fyw ac yn deall ei rôl mewn perthynas â chadw'r plant yn ddiogel ac yn iach.

Mae'r gwarchodwr plant yn cymhwyso egwyddorion adnodd yr archwiliad rheoli heintiau, er enghraifft wrth newid cewynnau, a thrwy hyrwyddo hylendid cadarnhaol drwy atgoffa'r plant i olchi eu dwylo.  Er enghraifft, golchodd y plant eu dwylo wrth ddychwelyd i'r ardal dan do ar ôl casglu dail a brigau yn yr awyr agored.  Mae gweithgarwch corfforol yn bwysig iawn i'r gwarchodwr plant.  Roedd y plant yn mwynhau rhedeg yn yr ardd, gyda phob plentyn yn cael yr un cyfle.  Roedd y plant a oedd wedi bod yn cysgu pan aeth eraill allan i'r awyr agored yn cael mynd allan i'r awyr agored yn ddiweddarach.  Dilynir bwydlen gylchol ar gyfer byrbrydau ac amseroedd bwyd, sy'n cynnig amrywiaeth o wahanol fwyd i'r plant. Roedd y polisi meddyginiaeth yn cael ei weithredu'n llawn gyda'r gwarchodwr plant yn cyfleu'n glir y ffordd orau y byddai'n diwallu anghenion plentyn a oedd yn sâl.  Roedd y gwarchodwr plant yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r broses i'w dilyn os oedd ganddi bryderon diogelu am blentyn.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu'r arferion gorau mewn perthynas â hyrwyddo llesiant cyffredinol y plant bob amser.

### 2.2 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn rheoli'r rhyngweithio?

Mae'r gwarchodwr plant yn hawdd mynd ati ac yn sensitif i anghenion a phrofiadau'r plant unigol.

Roedd y gwarchodwr plant yn gweithredu'n gyson ac yn teilwra ymatebion i anghenion unigol a cham datblygu'r plant.  Roedd hi'n ymwybodol pan roedd y plant yn cynhyrfu ac yn deall y ffordd orau y gallai eu cefnogi.  Er enghraifft, pan roedd plentyn yn cynhyrfu, gwnaeth y gwarchodwr plant ei annog i ddod draw ati i edrych ar lyfrau. Roedd y gwarchodwr plant yn gwybod mai hwn oedd ei hoff weithgaredd.  Roedd dewisiadau unigol yn cael eu parchu, cynigiwyd dewis o frechdanau i'r plant amser cinio a chawsant eu cefnogi hefyd i ddewis gyda phwy roeddent am eistedd.  Roedd y ddau warchodwr plant yn cydweithio'n dda ac yn cynnig profiadau cadarnhaol i'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn parchu diddordebau a dewisiadau'r plant, ac yn gwerthfawrogi cyfranogiad y plant.

## 2.3 Pa mor dda y mae ymarferwyr yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad plant, ac yn diwallu eu hanghenion unigol?

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig amgylchedd gofalgar a magwrus ac mae ganddi ddisgwyliad uchel o ran dysgu'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod trefniadau dyddiol yn rhoi sefydlogrwydd a sicrwydd i'r plant. Yng nghanol cyfnodau o chwarae rhydd, roedd gweithgareddau dan arweiniad oedolion a oedd yn gysylltiedig â'r thema bresennol gyda'r amcanion dysgu yn cael eu nodi. Gwnaeth y gwarchodwr plant gynllunio'n fanwl ar gyfer y camau nesaf o ran dysgu'r plant. Caiff gweithgareddau eu cynllunio mewn modd hyblyg, gan ystyried oedran y plant a'u dewisiadau.

Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo datblygiad y plant yn llwyddiannus drwy gynllunio ar gyfer ystod eang o brofiadau chwarae a dysgu.

## 3. Yr amgylchedd

### Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd diogel i'r plant sydd â digon o le a chyfleusterau i ddiwallu eu hanghenion. Caiff y safle ei gynnal a'i gadw'n dda, ac mae digon o deganau ac adnoddau ar gael i'r plant sy'n cynnig profiadau chwarae diddorol.

### Ein canfyddiadau

### 3.1 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn derbyn gofal mewn amgylchedd diogel a glân.

Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'i chyfrifoldebau mewn perthynas â hyrwyddo diogelwch a llesiant y plant bob amser. Roedd systemau cadarnhaol ar waith i sicrhau bod archwiliadau rheolaidd a gwiriadau diogelwch dyddiol wedi'u cwblhau. Roedd y gwarchodwr plant wedi tynnu'r gât risiau ac roedd y plant a oedd yn bresennol yn gwybod i beidio â defnyddio'r grisiau ar eu pen eu hunain. Roedd y gwarchodwr plant wedi ystyried grŵp oedran y plant roeddent yn gofalu amdanynt a dylid adolygu hwn yn rheolaidd. Cynhaliwyd ymarferion tân yn rheolaidd ac roedd cofnodion yn nodi unrhyw gamau sydd angen eu cymryd.

Mae'r gwarchodwr plant yn dilyn gofynion iechyd a diogelwch.

### 3.2 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas?

Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amgylchedd cyfoethog ar gyfer chwarae a dysgu.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd dan do ac yn yr awyr agored yn cynnig ystod eang o gyfleoedd chwarae. Gwnaeth y gwarchodwr plant annog y plant i ddefnyddio'r llawr gwaelod yn rhydd, gan hyrwyddo annibyniaeth y plant. Roedd yr arddangosfeydd lliwgar ar y waliau yn creu lle croesawgar ac roedd yr ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd i'r plant gymryd risgiau cadarnhaol, megis wrth ddefnyddio'r cyfarpar dringo.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn cael budd o amgylchedd cyfforddus ac ysgogol.

### 3.3 Pa mor dda y mae arweinwyr yn sicrhau bod yr adnoddau a'r cyfarpar o ansawdd?

Mae digon o adnoddau o ansawdd gan y gwarchodwr plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amrywiaeth o adnoddau a chyfarpar sydd ar gael i'r plant yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Prynwyd adnoddau newydd yn ddiweddar er mwyn ehangu'r ystod sydd ar gael, megis stondin marchnad, eitemau i'r

gornel gartref a blociau adeiladu.  Roedd yn hawdd i'r plant gael gafael ar yr adnoddau a oedd wedi'u storio'n dda ac yn galluogi'r plant i ddilyn eu diddordebau.  Roedd yr adnoddau'n ymddangos yn lân ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda.

Mae'r gwarchodwr plant yn cynnig adnoddau o ansawdd i'r plant gael eu defnyddio yn llwyddiannus.

# 4. Arwain a Rheoli

## Crynodeb

Mae'r gwarchodwr plant yn rhedeg ei gwasanaeth yn llwyddiannus. Yn amlwg, mae'n cyfleu ei gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth ac wedi gweithredu ar sail cyngor ac adborth er mwyn cyflawni gwelliannau. Mae'r rhieni'n cael gwybod am lesiant eu plentyn.

## Ein canfyddiadau

### 4.1 Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth?

Mae gan y gwarchodwr plant ymdeimlad o ddiben sy'n hyrwyddo ac yn cynnal gwelliannau.

Roedd gan y gwarchodwr plant weledigaeth glir o'i gwasanaeth ac mae wedi rhoi gwelliannau ar waith yn llwyddiannus i gyfrannu tuag at ddeilliannau cadarnhaol i'r plant. Er enghraifft, prynwyd adnoddau ychwanegol, roedd adnoddau o ansawdd ar gael er mwyn helpu i gynllunio a gwerthuso deilliannau'r plant a ddefnyddiwyd yn effeithiol o ddydd i ddydd. Roedd polisïau effeithiol yn eu lle ac fe'u hadolygwyd yn flynyddol, gan roi newidiadau ar waith yn ôl yr angen. Mae'r gwarchodwr plant yn ymwybodol o'r Gymraeg ac yn hyrwyddo ei defnydd yn rheolaidd.

Mae gan y gwarchodwr plant ymdeimlad cryf o ddiben ac ethos cadarnhaol.

### 4.2 Pa mor effeithiol yw'r gwaith o hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella?

Mae'r gwarchodwr plant wedi mynd i'r afael â diffyg cydymffurfio a'r holl argymhellion a wnaed.

Mae'r gwarchodwr plant yn cymryd camau priodol yn ôl yr angen i roi newidiadau cadarnhaol ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn agored i syniadau newydd ac yn barod i roi cynnig ar ffyrdd gwahanol o weithio, er enghraifft cafodd y cofrestri eu diweddaru'n ddiweddar. Caiff barn y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei gasglu a chafodd adolygiad o ansawdd y gofal ei gwblhau yn 2017. Ni chafwyd llawer o ymatebion gan y rhieni yn 2018 a oedd yn cyfyngu ar allu'r gwarchodwr plant i gynhyrchu adroddiad.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithredu strategaethau cadarn i sicrhau gwelliannau dymunol.

### 4.3 Pa mor effeithiol y mae ymarferwyr, staff ac adnoddau eraill yn cael eu rheoli?

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod pawb yn deall eu cyfrifoldebau.

Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei hamser yn dda ac yn gweithio mewn partneriaeth â'i gŵr. Caiff rolau eu dirprwyo'n effeithiol a chânt ragor o gymorth gan ddau gynorthwyydd gofal, nad oeddent yn bresennol adeg yr arolygiad. Mae trefniadau effeithiol ar waith i gyflenwi absenoldebau staff ac maent yn ategu cryfderau ei gilydd. Os yw'r gwarchodwr plant i ffwrdd o'r gwaith, gall gweithgareddau a drefnwyd barhau. Roedd pawb wedi

cwblhau hyfforddiant Cymorth Cyntaf Pediatrig ac roedd ganddynt dystysgrifau DBS cyfredol. Roedd arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal ond nid yn flynyddol, a chynhelir sesiynau goruchwylio yn rheolaidd, ond nid oedd unrhyw gofnod ysgrifenedig.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff rolau eu dirprwyo ac yn sicrhau parhad gofal i'r plant.

**4.4 Pa mor effeithiol yw partneriaethau?**

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni am lesiant eu plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi gwybodaeth i'r rhieni am lesiant eu plentyn yn ddyddiol. Caiff dyddiaduron dyddiol eu cwblhau ar gyfer pob plentyn a dywedodd y rhieni wrthym eu bod yn hapus â'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gweithredu. Gall y gwarchodwr plant ymateb i adborth a phryderon drwy gael trafodaethau rheolaidd a gwelsom dystiolaeth eu bod yn cymryd camau gweithredu pan fo angen. Er enghraifft, roedd y gwarchodwr plant yn dilyn newid o ran trefn un plentyn, nid oedd yn cysgu yn ystod y prynhawn bellach. Dyma oedd yr achos gydag ymarfer defnyddio'r poti hefyd, wrth i'r gwarchodwr plant ddilyn cais gan riant.

Mae'r gwarchodwr plant yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhieni yn barhaus.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Gwnaethom hysbysu'r gwarchodwr plant nad oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau canlynol o Reoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010. Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r mater hwn.

Rheoliad 16: nid oedd y gwarchodwr plant wedi cwblhau adroddiad o Ansawdd y Gofal.

Rheoliad 29: nid oedd unrhyw gofnod o arfarniadau yn flynyddol.

Mae'n rhaid mynd i'r afael â'r materion hyn.

Gwnaethom argymell y gallai'r gwarchodwr plant wneud y canlynol;

- adolygu'n rheolaidd a oes angen gosod giât ar y grisiau.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad dirybudd llawn a gynhaliwyd fel rhan o'n rhaglen arferol o arolygiadau. Ymwelodd un arolygydd â'r gwasanaeth ar 16 Hydref 2018 rhwng 10:45am a 2:50pm.

Gwnaethom y canlynol:

- archwilio sampl o ddogfennaeth a pholisïau;
- arsylwi arferion, siarad â'r plant a'r rhieni;
- archwilio'r adnoddau a'r safle;
- rhoi adborth i'r gwarchodwr plant dros y ffôn.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Person Cofrestredig | Natalie Williams |
| Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd | 10 |
| Ystod oedran y plant | Oedran geni hyd at 12 oed |
| Oriau agor | Rhwng 7:00am a 5:30pm<br>O ddydd Llun i ddydd Gwener |
| Iaith weithredol y gwasanaeth | Cymraeg |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 25 Awst 2016 |
| Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn | 16 Hydref 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r cynnig rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg, am nad yw'r holl waith papur ar gael yn ddwyieithog.Fodd bynnag, gall y plant gyfathrebu yn eu dewis iaith a hyrwyddir defnyddio'r Gymraeg. |
| Gwybodaeth Ychwanegol: | |